CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	17 Mehefin 2019
TEITL	Hunan Asesiad a Rhaglen Waith
AWDUR	Swyddog Monitro

1. Mae dau fwriad ar gyfer yr adroddiad yma sef cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2019-20 ac ystyried rhaglen waith drafft ar gyfer 2019-20

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw'r angen i weithredu wedi codi.

   Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

   Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

   Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i'r maes.

Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

5. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

Yn Atodiad 2 Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2019 -20

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o'r perfformiad yn 2018-19 ynghyd a chymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2019-20